

## CARIAD

---

---

### **Llefarydd:**

*'Duw cariad yw.'*

*'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.'*

*'Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni yn caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau.'*

*'Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd.'*

### **Cyd-weddiwn:**

Diolchwn i ti, ein Tad, am neges gysurlawn dy Air, iti'n caru â chariad diderfyn yn dy Fab Iesu Grist. Yn yr oedfa hon cynorthwya ni i feddwl yn ddwys am fawredd dy gariad ac i ymateb yn gywir ein hysbryd ac yn gynnes ein calon. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 188 – *Fy enaid, gogonedda*

### **Llefarydd:**

Y mae cariad yn un o eiriau pwysicaf ein geirfa fel Cristnogion. Mae'n air poblogaidd oddi mewn i'r Eglwys a hefyd yn y gymdeithas a'r byd yr ydym yn byw ynddo, ond a ydym yn gwybod ystyr y gair 'cariad' mewn gwirionedd? Ac yn bwysicach na dim, a ydym yn gweithredu cariad yn ein bywyd?

Y ganmoliaeth fwyaf a roddodd pagan i Gristnogion yr Eglwys Fore oedd dweud amdanynt, *'Gwelwch fel y maent yn caru ei gilydd.'*

Beth yw ystyr dweud hyn, a beth yw oblygiadau caru ein gilydd mewn gwirionedd?

Yn y gwasanaeth hwn, fe geisiwn ateb drwy ddefnyddio llythrennau y gair ‘cariad’, a nodi chwe rhinwedd y mae gwir gariad yn eu cynnwys. Ond cyn hynny, fe wrandawn ar adnodau o lythyr cyntaf loan:

**Darlleniad:** Llythyr cyntaf loan 4: 7–12

**Llefarydd:**

Dechreuwn gyda llythyren gyntaf y gair ‘cariad’, sef:

**‘C’—CYFEILLGARWCH.**

Ystyr gwreiddiol y gair ‘cyfail’ yn y Gymraeg yw ‘un wedi ei gydfagu â rhywun arall’. Ymhell yn ôl yn hanes ein cenedl, roedd plant tywysogion Cymru yn cael eu magu nid gan eu tad a’u mam ond gan fam faeth a thad maeth. Yn aml iawn roedd gan y rhieni maeth eu plant eu hunain, a’r canlyniad oedd eu bod yn cael eu cydfagu â phlant y tywysogion. Er enghraifft, fe gafodd Gruffydd ap Cynan, Tywysog Gwynedd, ei gydfagu â bachgen o’r enw Collwyn, a thrwy gyd-dyfu daethant yn gyfeillion mynwesol.

Y mae hyn yn wir am lawer o aelodau a phlant ein heglwysi. Dros y blynyddoedd buont gyda’i gilydd yn yr ysgol a’r capel, a chawsant bob cyfle i fod yn gyfeillion. Ond un peth yw gwneud cyfeillion, peth arall yw cadw cyfeillion am oes. Clywsom fwy nag unwaith y cyngor:

*‘I gael ffrind, mae’n rhaid bod yn ffrind.’*

Y mae ffrind yn debyg i ddilledyn sydd angen ei drwsio’n gyson. Ni ddylem ar unrhyw gyfrif gymryd cyfeillgarwch ein gilydd yn ganiataol. Y mae cyfeillgarwch yn rhodd i’w thrysori a’i gweithredu yn gyson. Onid hyn yw galwad Cymdeithas y Cyfeillion, sef y Crynwyr? Credent y dylent fel cymdeithas adlewyrchu cyfeillgarwch eu Harglwydd yn eu perthynas â’i gilydd, ac â’i cyd-ddynion. Costiodd y gred hon eu bywydau i rai ohonynt.

**Llefarydd:**

Yn ei berthynas â'i ddisgyblion gwnaeth Iesu Grist gyfeillgarwch yn fater hollbwysig. Nid meistr yn trafod ei ddisgyblion fel gweision oedd Iesu Grist, ond meistr yn trafod ei ddisgyblion fel cyfeillion. Gwyddai yn fwy na neb am eu gwendidau, ac y byddent yn ei siomi yn 'awr y prawf', ond ni phallodd ffyddlondeb ei gyfeillgarwch tuag atynt. Roedd ei gyfeillgarwch at ei ddisgyblion yn ddiollwng, a chyn wynebu'i groes, pwysleisiodd y rhwymyn cyfeillgarwch oedd rhyngddynt.

*'Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision ... Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion.'*

Yn naturiol y mae ein disgwyliadau yn fwy oddi wrth gyfaill nag oddi wrth was. Yr hyn a wna gwas yw rhoi oriau penodol bob wythnos am ei wasanaeth, ond y mae cyfaill yn ei roi ei hunan am byth.

Y mae rhoi ein hunain i'n cyfeillion yn weithred ragorol, ond fel y dywed yr emynydd, y mae'r hyn a wnaeth Iesu Grist ar ben Calfaria yn fwy rhagorol:

*'Fe fu farw dros elynion  
I'n gwneud iddo yn gyfeillion.'*

Ceir llawer diffiniad o 'gyfaill', megis:

*'Cyfaill yw un y teimlwn yn ddiogel yn ei gwmni.'*

Onid yr ymdeimlad hwn a gafodd nifer o bobl yng nghwmni Iesu Grist, y bobl a ddaeth i'w adnabod fel 'cyfaill pechaduriaid'? Teimlent y gallent ymddiried ynddo a bod yn ddiogel yn ei gwmni. Fel cyfaill ymddiriedodd Iesu hefyd yn ei ddisgyblion a datgelodd iddynt gyfrinachau dyfnaf ei fywyd. Meddai wrthynt:

*'Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad.'*

Dywedodd rhywun fod bywyd heb gyfaill fel bywyd heb haul. Haul bywyd y Cristion yw ei Waredwr Iesu Grist. Gadewch inni gofio hynny yn yr oedfa hon, ac ymateb o'r newydd i wahoddiad Iesu Grist i ni ddod i berthynas o gyfeillgarwch ag ef, ac â'n gilydd.

**Darlleniad:** Ioan 15: 12–17

**Gweddïwn:**

Diolchwn i ti, ein Tad, am Gyfaill *'haeddai ei garu a'i glodfori'n fwy nag un.'*

Cyffeswn fod 'na derfynau a diffygion i'n cyfeillgarwch ni, ond bendigwn dy enw na chawn byth ein siomi yng nghyfeillgarwch dy Fab Iesu Grist. O Dad, gwna'n cyfeillgarwch yn debyg i gyfeillgarwch dy Fab,  
    yn gywir ein hysbryd,  
    yn garedig ein natur, ac  
    yn ofalus o deimladau eraill.

O Dad, gwared ni rhag cyfeillgarwch cyfyng a hunanol, sy'n cadw eraill allan. Dyro inni weld posibilrwydd cyfaill ym mhawb, ac i bawb weld posibilrwydd cyfaill ynom ni.

Diolchwn i ti am gyfeillion sy'n glynu wrthym, er eu bod yn gwybod y gwaethaf amdanom, ac am deulu sy'n glynu wrthym ymhob tywydd. O Dad, gwna ni hefyd yn driw ein cyfeillgarwch, ac yn barod i weld ac i gredu'r gorau am bawb. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 205 – *Dyma gariad fel y moroedd*

**Llefarydd:**

Y llythyren nesaf yn y gair cariad yw **'A'**. **'A'** am **AMYNEDD**.

Nid yw gweithredu amynedd yn rhwydd i bawb ohonom, ac mae'n hawdd iawn ei golli pan fydd amgylchiadau'n gwasgu. Weithiau fe gawn ein siomi neu ein brifo gan ffrind, ac fe all hynny ein gwneud yn ddiamynedd ac yn galed ein hysbryd. Onid dangos y mae hyn ein bod yn ddiffygiol ac yn brin o wir gariad? Yn ei bennod gyfoethog ar gariad, fe ddywed yr Apostol Paul hyn am gariad:

*'nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam.*

*Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf.'*

Y mae'r gallu i ddal ati i oddef, i gredu ac i obeithio yn gofyn amynedd mawr ar adegau. Gwelwyd hyn yn hanes Job. Profodd nifer fawr o brofedigaethau, gan gynnwys colli ei eiddo, ei deulu, ei barch a'i gyfeillion, ac yn y diwedd ei iechyd. Fe brofodd stormydd bywyd enbyd iawn, a suddodd fwy nag unwaith i hunandosturi a digalondid llwyr. Mynegodd ei deimpladau briwedig yn hallt gerbron Duw, ond ni chollodd ei ffydd, a thrwy'r profedigaethau chwerw, meithrinodd Job y rhinwedd o fod yn amyneddgar.

### **Llefarydd:**

Y mae gweithredu amynedd yn profi cariad i'r eithaf. Onid hynny a wnaeth dyn yn ei berthynas â Duw? Dyma a barodd i'r emynydd George Lewis ofyn yn ddifrifol:

*'Rhyfedd na buaswn 'n awr  
Yn y fflamau,  
Wedi cael fy nhorri i lawr  
Am fy meiau ...'*

Onid cariad yn gwrthod gollwng yw amynedd ar ei orau? Ac onid hynny a welwyd ar ben Calfaria? Er inni gyflawni ein gwaethaf i Iesu Grist ar y groes, ni phallodd ei amynedd tuag atom, a pharhaodd i'n caru i'r eithaf. Gwrthododd ollwng ei afael arnom, ac arbedodd ni rhag ein haeddiant pechadurus. Beth yw hyn ond amynedd Duw tuag atom yn deillio o'i gariad mawr? Nid rhyfedd i George Lewis orffen ei bennill trwy ganu:

*'Gan fy mod i heddiw'n fyw  
Mi rof deyrnged  
O glod a mawl i'm Harglwydd Dduw  
Am fy arbed.'*

Y ffordd orau i feithrin amynedd yw myfyrio ar gariad di-ildio Duw tuag atom yn Iesu Grist, a gweddïo am nerth i ymdebygu iddo mewn ysbryd a gwirionedd.

### **Gweddi'r Arglwydd:**

**Emyn:** 190 – *Rhyfeddol a rhyfeddol*

### **Llefarydd:**

Y llythyren nesaf yn y gair cariad yw '**R**'– **RHUDDIN**.

Rhuddin yw rhan fewnol y goeden, sef calon y pren. Dyma'r rhan sy'n rhoi gwydnwch i'r goeden, a'i galluogi i wrthsefyll tywydd garw.

Y mae angen gwydnwch mewnol arnom ninnau hefyd. Fel y mae rhuddin yn gwneud coeden yn gryf ac yn gadarn, y mae cariad Iesu Grist yn ein gwneud ninnau yn gymeriadau cryf a chadarn.

Yn ddiamau, gwelwyd cadernid cariad Duw ym mywyd yr Arglwydd Iesu Grist, a'r modd yr aeth i'r groes heb wyro oddi wrth y gwir, ac yn anorchfygol ei gariad. Yn wir, argyhoeddwyd ei ddilynwyr mai Duw ydoedd yn y cnawd, a bod rhuddin cariad Duw yn ei Berson.

Y mae ein cariad ni yn aml iawn yn eiddil, yn simsan ac yn siomedig, ond y mae gennym Arglwydd sy'n cydymdeimlo â'n gwendid, ac yn abl i roi gwydnwch ei gariad ynom i wrthsefyll holl brofedigaethau bywyd.

*'Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,*

*Tydi yw 'ngrym:*

*Pa les ymdrechu, f'Arglwydd, hebot ti,*

*A minnau'n ddim?*

*O rymus Un, na wybu lwfwrhau,*

*Dy nerth a'm ceidw innau heb lesgáu.'*

**Emyn:** 541 – *O Fab y Dyn, Eneiniog Duw, fy Mrawd*

**Llefarydd:**

Gadawn y llythyren nesaf yn y gair ‘cariad’ am ychydig funudau, a symud ymlaen at y llythyren ‘A’– **am ADDFWYNDER.**

Y mae cariad yn cynnwys y gallu i fod yn gyfeillgar, yn amyneddgar ac yn gryf, a hefyd i fod yn addfwyn. Hynny yw, os ydym yn caru ein gilydd, yna rydym yn addfwyn ein hysbryd ac yn dyner ein calon tuag at ein gilydd. Dyma rai adnodau sy’n cynnwys y gair ‘addfwyn’:

*‘Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu’r ddaear.’*

*‘Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon.’*

*‘Frodyr, os caiff dyn ei ddal mewn rhyw drosedd, eich gwaith chwi, y rhai ysbrydol, yw ei adfer mewn ysbryd addfwyn.’*

*‘Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ymhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad.’*

*‘Boed ichwi’n addurn, nid pethau allanol fel plethu gwallt, ymdaclu â thlysau aur, ymharddu â gwisgoedd, ond cymeriad cêl y galon a’i degwch di-dranc, sef ysbryd addfwyn a thawel. Dyna sy’n werthfawr yng ngolwg Duw.’*

**Llefarydd:**

Y mae’r gair ‘addfwyn’ i rai yn awgrymu tynerwch sentimental a meddalwch di-asgwrn-cefn, ac yn eu golwg, nid yw’n rhinwedd addas i goncwerwyr. I’r Cristion, fodd bynnag, mae yna’r fath beth ag addfwynder cryf a chadarn.

Fe welwyd hyn yn arbennig ym mherson y concwerwr mawr, yr Arglwydd Iesu Grist. Ef oedd yr addfwynaf a welwyd ar ein daear erioed. Ymatebodd yn dyner tuag at blant bychain, ac roedd yn addfwyn ei ysbryd tuag at y cleifion a’r gwrthodedig; ond yr un Iesu a gondemniodd ragrith y Phariseaid yn ddi-flewyn-ar-dafod, ac a wynebodd rym y llu arfog yng ngardd Gethsemane yn ddewr ei ysbryd. Nid gwlanen o

ddyn oedd Iesu addfwyn. Gwrthwynebodd holl alluoedd y fall yn ddewr, a rhodiodd ffordd arw cariad yn addfwyn a chadarn i'w phen draw. Yn ôl y Beibl, y gwrthwyneb i addfwynder yw balchder, ac ystyrir balchder yn wraidd a hanfod pechod. Dywed Iago yn ei lythyr:

*'Y mae Duw yn gwrthwynebu'r beilchion, ond i'r gostyngedig y mae'n rhoi gras.'*

Efallai fod gormodedd yn y frawddeg ganlynol:

*'Y mae ffug ostyngeddwydd yn waeth hyd yn oed na balchder trahaus.'*

Gwyddom fodd bynnag fod rhagrith yn ffaidd yng ngolwg Iesu Grist, ac onid rhagrith ar ei waethaf yw ffug ostyngeddwydd? Y person gostyngedig ac addfwyn yw hwnnw sy'n adnabod ei hunan yng ngoleuni yr addfwynaf a fu erioed ar ein daear. Nid yw'n meiddio codi ei ben yn falch ei ysbryd, ond yn ymateb yn ostyngedig o galon, ac yn ddiolchgar am y fraint o gael adnabod y mwyaf gostyngedig a welodd ein byd erioed.

### **Cyd-weddiwn:**

O Arglwydd Iesu Grist, yr addfwyna' fu ar ein daear:

*'Gwna ni yn addfwyn fel Tydi  
Wrth bawb o'r isel rai;  
Gwna ni yn hoff o wrando cwyn  
A hoff o faddau bai.*

*Dod inni galon well bob dydd,  
A'th ras yn fodd i fyw  
Fel bo i eraill drwom ni  
Adnabod cariad Duw.'* Amen.

### **Llefarydd:**

Llythyren olaf y gair cariad yw **'D' – DAIONI.**



Y mae'r gair 'daioni' i'w gael tua chant o weithiau yn y Testament Newydd, ac fe'i cynhwysir hefyd ymhlith ffrwythau'r Ysbryd Glân. Yn ôl y Beibl y mae 'gwneud daioni' yn golygu byw yn ôl ewyllys Duw, a'r person a wnaeth hynny yn llwyr oedd Iesu o Nasareth. Dywed Pedr yn ei bregeth yn nhŷ Cornelius, i Iesu:

*'fynd oddi amgylch gan wneud daioni.'*

Yng ngweithredoedd daionus Iesu Grist gwelwyd sglein cariad Duw. Y gair Groeg am ddaioni yw *kalos*, ac mae'n golygu da a phrydferth. Er enghraifft, pan eneiniodd gwraig draed Iesu Grist ag ennaint drudfawr a'u sychu â'i gwallt, ymatebodd ef drwy ddweud:

*'Gweithred brydferth a wnaeth hi i mi.'*

Gwnaeth y wraig hon weithred ddaionus i Iesu Grist o'i chalon, ac fe gafodd gymeradwyaeth hael ganddo. Gadewch i ninnau hefyd gael ein meddiannu ag ysbryd cariad fel y gwnawn ddaioni gyda'r amcanion uchaf posibl yn ein calonnau. I gloi ein myfyrdod ar ddaioni gwrandawn ar rai o gynghorion yr Apostol Paul:

*'Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedî'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond i ni beidio â llaesu dwylo. Felly, tra bydd amser gennym gadewch i ni wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.'*

*'Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da.'*

*'Bydded eich cariad yn ddiragrith. Casewch ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni. Paid â goddef dy drechu gan ddrygioni. Trecha di ddrygioni â daioni.'*

**Emyn:** 687 – *Dal fi, fy Nuw, dal fi i'r lan*

**Llefarydd:**

Yn ein myfyrdod ar gariad, gadawsom y llythyren 'I' sydd yng nghanol y gair cariad. 'I' **am IESU**. Ef yw calon yr Efengyl, ac ef a ddatguddiodd i ni galon gariadus Duw. Mynegir hyn yn syml ac yn hyfryd yng ngeiriau'r emynydd:

*'Cariad Iesu Grist,  
Cariad Duw yw ef:  
Cariad mwya'r byd,  
Cariad mwya'r nef.'*

I ni Gristnogion nid gair haniaethol a sentimental yw cariad, ond person. Ni allwn feddwl am gariad heb feddwl am yr Arglwydd Iesu Grist. Ynddo ef ac yn ei fywyd o Fethlehem i'r groes y gwelsom ogoniant cariad Duw, a thrwyddo ef y cawn y fraint o ddangos cariad Duw i'n gilydd ac at ein cyd-ddynion.

**Emyn:** 199 – *Dyma gariad, pwy a'i traetha?*

**Y Fendith:**

Ewch mewn tangnefedd, i garu ac i wasanaethu'r Arglwydd yn enw Iesu Grist. A bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân a fyddo gyda chwi. Amen.